



# Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro and Governor Support Unit Cylchlythyr

## Gair gan y Cadeirydd

Mae'r lefel ariannu isel ar gyfer ysgolion yn y Fro yn thema sydd wedi cael ei hystyried dro ar ôl tro dros y blynyddoedd gan Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro. Mae'r mater wedi cael ei drafod yn helaeth yn Fforwm y Gyllideb Addysg ac yn ein cyfarfodydd rheolaidd ag aelodau a swyddogion y Cyngor. Rydym wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ond heb ganlyniad.

Nid mater gwleidyddiaeth pleidiau yw hyn, Ers 2012, mae cynghorwyr o bob plaid wedi cytuno ar wariant ar gyfer addysg sy'n uwch na'r swm y mae Llywodraeth Cymru'n dweud y dylid ei ddyrannu i addysg yn y Fro. Serch hyn, mae'r Fro'n parhau i fod yr awdurdod gyda'r gwariant isaf fesul disgybl y flwyddyn. Fe'i rhestrir yn 22 o 22.

Mae pob disgybl yn y Fro yn derbyn £5,022, sy'n £605 y disgybl y flwyddyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef £5,628. Mae'r awdurdod a ariennir fwyaf yn gwario £6,382 y disgybl, sy'n £1,360 yn fwy na'r Fro. Mae'r bwlch bellach yn 27% ac mae wedi tyfu o 24% ddwy flynedd yn ôl.

Peidiwch â gadael i gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru am fuddsoddi mewn adeiladu ysgolion yn gwrthdymnu eich sylw. Er y croesewir hyn, mae'n ymwneud â ffabrig ysgolion yn unig. Y ffigur sydd dan sylw yma yw refeniw parhaus – talu am athrawon, llyfrau, goleuadau, gwresogi – flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Pam mae hyn yn digwydd? Mae Fforwm y Gyllideb wedi ceisio dirnad pam mae'r awdurdodau eraill yn gallu gwario llai na'r hyn a argymhellir gan lywodraeth Cymru, ond eto'n gwario llawer mwy na'r Fro ar bob disgybl. Ceir yr ateb yn y fformiwlâ a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu'r arian mae'n ei roi i awdurdodau lleol. Nid yw hwn wedi'i gyhoeddi, nid

yw'n dryloyw ac rydym wedi darganfod ei fod yn seiliedig ar hen ddata. Mae rhai o'r elfennau'n seiliedig ar gyfrifiad 1991. Mae demograffeg Cymru wedi newid cryn dipyn dros 27 o flynyddoedd.

Byddai'r ysgol uwchradd lle rwy'n llywodraethwr £500,000 yn well ei byd petai'n cael ei symud bedair milltir i'r awdurdod lleol cyfagos. Ni all hynny fod yn dderbyniol.

Mae'n amlwg bod gan rai ardaloedd yng Nghymru anghenion mwy dybryd na rhai eraill, ond nid yw'r dulliau presennol o rannu'r arian yn glir ac maent yn bendant yn annheg. Ar y lleiaf dylid cynnal trafodaeth gyhoeddus am le a sut y dylid gwario arian.

Mae Fforwm y Gyllideb a'r Cyngor wedi cyrraedd mur diadlam yn eu hymdrechion i berswadio Gweinidogion Cymru i wrando ar eu pryderon. Dyna pam rydym wedi cychwyn ymgyrch gyhoeddus i gynyddu ymwybyddiaeth o'r sefyllfa anfodhaol hon. Gallwch helpu trwy ysgrifennu fel Corff Llywodraethu neu fel llywodraethwyr unigol at Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, ac Alun Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, gan esbonio goblygiadau'r diffyg arian hwn i'r addysg a ddarperir gennych. Hefyd gallwch annog rhieni disgyblion eich ysgol i godi'r mater gyda'u Haelodau Cynulliad a'u Haelodau Seneddol lleol.

Mater o degwch a thryloywder yn y defnydd o gyllid cyhoeddus yw hwn, a'i effaith ar y bobl ifanc dan ein gofal.

**Dr Martin Price**  
Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr  
Ysgolion y Fro ac Is-Gadeirydd y  
Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd  
Gatholig Sant Richard Gwyn



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef [VSGA@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:VSGA@valeofglamorgan.gov.uk)  
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA  
a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Dysgu a Sgiliau  
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,  
Y Barri CF63 4RU

## Rhifyn 41

## Tymor Gwanwyn 2018

### Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

### Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

## Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

### Manylion cyswllt:

**John Sparks**

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr

Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820

E-bost: [JSparks@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JSparks@valeofglamorgan.gov.uk)

**Janine Hoare**

Cynorthwydd Clerigol

Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820

E-bost: [JHoare@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JHoare@valeofglamorgan.gov.uk)



## Cyfle na ellir ei goll!i

A allai eich ysgol chi elwa ar daith ysgol am ddim? I ganolfan addysg leol o'r radd flaenaf? Y cyfan wedi'i gysylltu â'r cwricwlwm cenedlaethol?

Os taw'r ateb i'r uchod yw 'gallai', a'ch bod yn awyddus i ddarganfod beth yn union sy'n digwydd i bopeth rydym yn eu taflu i'n bagiau du bob dydd nad oes modd eu hailgylchu, fel pecynnau creision, dylech ystyried ychwanegu ymweliad â Pharc Trident at agenda eich ysgol.

Cyfleuster adfer ynni yw Parc Trident, sydd wedi'i leoli yn Nociâu Caerdydd ger y gylchfan hud. Mae'n bosibl eich bod wedi sylwi ar yr adeilad nodedig hwn. Caiff ei gynnal gan y cwmni preifat Viridor, ac mae'n cludo gwastraff gweddilliol sawl awdurdod lleol, gan gynnwys y Fro, ac yn ei droi yn ynni adnewyddadwy.

Mae'r adeilad yn gyfleuster trawiadol sydd â chanolfan addysg ac ymwelwyr pwrpasol a agorwyd ym mis Awst 2015, a gall ysgolion y Fro ymweld â hi am ddim.

Gall disgyblion ddysgu am leihau, ailddedfyddio ac ailgylchu gwastraff. Mae'r ganolfan yn cynnwys arddangosiadau rhyngweithiol â modelau ymarferol ac arddangosiadau clyweledol, ystafell ddosbarth â'r holl offer a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm cenedlaethol ynghyd â chynlluniau sesiwn.

Sesiynau hwyl, ac eto'n llawn gwybodaeth - y nod yw ysgogi meddyliau ifanc. Rydym i gyd yn taflu pethau, a gallwn gymryd mwy o ddiddordeb ac ymwneud mwy â'r hyn sy'n digwydd iddynt.

Gall y ganolfan hon gynnig amrywiaeth o becynnau addysgol o Gyfnod Allweddol 2+ ynghyd â theithiau arwain o amgylch y safle, a'r cyfan wedi'u hasesu o safbwynt risg.

Mae rhai o'n hysgolion eisoes wedi ymweld â Pharc Trident, ond os nad yw eich ysgol chi wedi gwneud hynny, peidiwch â cholli'r cyfle.

Gall y galw fod yn uchel gan fod y cyfleuster yn ymdrin â gwastraff sawl awdurdod lleol, felly anogwch eich ysgol i gysylltu'n gynnar er mwyn osgoi cael eich siomi.

Gellir archebu lle drwy Emma Wood, rheolwr y ganolfan, yn uniongyrchol drwy anfon e-bost at [EWood@viridor.co.uk](mailto:EWood@viridor.co.uk)

Byddai Emma'n croesawu gohebiaeth gan ysgolion y Fro, ac ar ôl ymweld â'r ganolfan yn bersonol, gallaf ei hargymell!!

**Sam Harrison**

Swyddog Ymwybyddiaeth Gwastraff, Cyngor Bro Morgannwg  
Am wybodaeth bellach gallwch naill ai ffonio 01446 700111  
neu anfon e-bost at [visible@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:visible@valeofglamorgan.gov.uk)

---

## Gwobr Gofalwyr Ifanc y Barri

Cliciwch ar y **ddolen** hon i weld gwobr Gofalwyr Ifanc Ysgol Gyfun y Barri, sef yr Ysgol gyntaf yng Nghymru i gael gwobr o'r fath.

# Bydd cyfreithiau diogelu data'n newid y ffordd mae ysgolion yn delio â gwybodaeth bersonol disgyblion

Bydd yn rhaid i ysgolion sy'n delio â gwybodaeth bersonol wneud hawliau preifatrwydd disgyblion yn flaenoriaeth pan ddaw cyfreithiau newydd i rym i ddisodli Deddf Diogelu Data (GDPR) gyfredol y DU ym mis Mai 2018. Bydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn rhoi hawliau cryfach i bobl gael gwybod sut mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio a chael mwy o hawliau o ran y ffordd y caiff ei brosesu. Bydd y GDPR hefyd yn cyflwyno dyletswydd i bob sefydliad adrodd achosion difrifol o dor-data i'r rheoleiddiwr, ac mewn rhai achosion yr unigolion a effeithiwyd. Mae hefyd yn galluogi'r Comisiynydd Gwybodaeth i gyflwyno dirwyon llawer uwch wrth orfodi'r gyfraith.

Un o'r prif newidiadau i ysgolion fydd y ffordd maen nhw'n delio â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth (SARau). Hwn yw hawl person i gael gwybodaeth a gedwir amdano, ac yn achos ysgolion gallai hyn fod yn gofnodion disgybl. Mae'r gyfraith newydd yn rhoi llai o amser i sefydliadau ymateb i'r ceisiadau hyn ac yn y rhan fwyaf o achosion ni all ysgolion godi ffi.

Cyflwynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ddwy sesiwn frifio i Benaethiaid a chyrrff llywodraethu yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bro Morgannwg ar ddydd Gwener 26 Ionawr 2017 ynghylch y GDPR a'r goblygiadau i ysgolion.

Mae'r holl newidiadau fydd angen i sefydliadau wybod amdanynt mewn canllawiau GDPR ar ein gwefan. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi creu pecyn o adnoddau i'ch helpu i baratoi. Mae'r adnoddau'n cynnwys::

- canllaw i'r GDPR;
- rhestr wirio hunangymorth ar baratoi at y GDPR;
- Cwestiynau Cyffredin ar y GDPR;
- llinell gymorth cyngor gwasanaeth newydd i sefydliadau bach; a
- graffeg '12 cam i'w gymryd' nawr.

Cysylltwch â swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yng Nghymru ar 029 2067 8400 ag unrhyw ymholiadau sydd gennych, neu e-bostiwch [Wales@ico.org.uk](mailto:Wales@ico.org.uk)

**Bethan Bonsall**  
Prif Swyddog Polisi  
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

---

## Ymchwiliadau annibynnol

Mae yna angen cynyddol am ymchwiliad annibynnol i faterion ysgolion e.e. cwynion, disgyblu, chwythu'r chwiban ac ati.

I fodloni'r angen, mae'r Cyngor am hyfforddi llywodraethwyr i allu cynnal ymchwiliadau annibynnol a sefydlu cronfa o lywodraethwyr sydd ar gael i'w defnyddio fel y bo angen.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cael eich hyfforddi ar gyfer y rôl hon, cysylltwch â Janine Hoare yn y lle cyntaf yn [JHoare@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JHoare@valeofglamorgan.gov.uk) erbyn dydd Gwener 27 Ebrill.

Ymddangosodd yr erthygl hon gyntaf ar y blog Materion Cymreig ar 15 Chwefror 2018.

## Faint mae addysgu plentyn yn ei gostio – Pennod 2

Mae Martin Price yn dadlau bod fformiwla ariannu ysgolion Llywodraeth Cymru yn annheg. 13 Chwefror 2018



ONghymru gan gyfeirio'n benodol at Fro Morgannwg, sydd wedi bod ar waelod rhestr o ddau ddeg dau dros yr ugain mlynedd ddiweddaf o ran gwariant fesul disgybl y flwyddyn. Bryd hynny, roedd y bwlch rhwng y brig a'r gwaelod yn 22 y cant. Erbyn hyn, mae'n 27 y cant.

Mae Gwleidyddion y Cyngor, Swyddogion, Penaethiaid a Llywodraethwyr wedi mynd yn gyhoeddus drwy anfon llythyrau i bob rhiant mewn ymgyrch sydd wedi'i hanelu at annog Llywodraeth Cymru i ddatgelu'r mecanweithiau llwydion sy'n pennu sut y mae arian llywodraeth leol ar gyfer addysg yn cael ei ddyrannu rhwng awdurdodau lleol.

Mae'r graff dramatig hwn a gyhoeddodd Lywodraeth Cymru yn dangos yr anghydraddoldeb yn effeithiol iawn. Byddai gan yr ysgol rwyf yn Llywodraethwr arni hanner miliwn o bunnoedd yn fwy bob blwyddyn petai wedi ei lleoli hanner milltir i ffwrdd yng Nghaerdydd.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru: Cyllideb ar gyfer Gwariant yr Awdurdod Lleol ar Ysgolion SB 32/2017  
Yr hyn nad yw'r graff yn ei ddangos yw bod y Fro wedi dyrannu £3 miliwn yn fwy na'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddyrannu dan ei fformiwla ariannu. Mae sawl awdurdod lleol sydd uwch i fyny'r tabl gwariant yn gwario llai o arian na'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddatgan mewn gwirionedd, ond maent dal yn gwario'n fwy na'r Fro fesul disgybl fesul blwyddyn.

Mae'r rhesymau dros hyn wedi'u cuddio yn y fformiwla y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i ddyrannu arian rhwng yr awdurdodau. Os holwch iddynt am y sail, byddant yn eich cyfeirio at y Llyfr Gwydd, sydd ar gael i'w lawrlwytho. Mae hyn yn rhoi dadansoddiad o'r niferoedd dan amrywiaeth o benawdau, ond nid y gwaith cyfrifo sydd y tu ôl iddynt. Byddai sinig yn dweud bod hyn yn dryloyw mewn enw'n unig. Mae'r

fformiwla wedi cael ei newid, ond nid yw wedi bod yn destun adolygiad cynhwysfawr ers 2001.

Mae sôn am fodelau atchweliad cymhleth yn sylfaen i'r ffigurau. Fel Ystadegydd Siartredig, rwy'n gwybod pan fod rhywun yn taflu llwch yn fy wyneb.

Mae'r Llyfr Gwyrdd yn amlygu anghysondebau amlwg iawn. Er enghraifft, mae rhai rhannau yn seiliedig ar ddata cyfrifiad 1991. Mae'n bosibl nad yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried y cynhaliwyd cyfrifiad yn 2001 a 2011 a bod cyfansoddiad a lleoliad poblogaeth Cymru wedi newid dros ddau ddeg saith o flynyddoedd.


Mae Fforwm Cyllideb Addysg Bro Morgannwg wedi gweithio gyda'r Cyngor i lunio a chyhoeddi'r dulliau y maent yn eu defnyddio i ddyrannu arian i ysgolion unigol. Cafwyd dadl iach, gyda phobl ar eu hennill ac ar eu colled, ond mae pawb yn gwybod beth yw'r sefyllfa.

Mae'n bryd i Lywodraeth Cymru fod yn onest a phrofi bod ei fformiwla gyllido yn deg ac yn amddiffynnol, yn cael ei adolygu'n gyson ac yn addas at y diben. Byddai'n ddechrau da pe bai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi sut mae'n dyrannu'r arian yn awr.

Yn y cyfamser, mae plant yn y Fro yn gorfod ymdopi â bod mewn dosbarthiadau mawr a chydau llai o werslyfrau.

Mae'r holl erthyglau sy'n cael eu cyhoeddi ar Click on Wales yn amodol ar wadiad y Sefydliad Materion Cymreig.

Mae Dr Martin Price yn Gadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Bro Morgannwg, yn Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, y Barri, ac yn Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Gatholig St Illtyd. Mae'n bartner Consultancy.coop (Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig) sy'n darparu gwasanaethau i elusennau a mentrau cymdeithasol yng Nghymru.



Source: Welsh Government: Local Authority Budgeted Expenditure on Schools SB 32/2017

# Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2016-18


Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

| Rhif     | Teitl   | Blaenly thyren | Cyfenw       | Ysgol   |
|----------|---------|----------------|--------------|---|
| 1        | Mr      | R              | Bailey       | Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llanbedr y Fro                       |
| 2        | Mr      | N              | Craggs       | Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfô                               |
| 3        | Mrs     | H              | Drew         | Ysgol Gyfun y Bont-faen   |
| 4        | Mrs     | M              | Gibbs        | Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr ac Ysgol Gynradd Romilly                  |
| 5        | Mr      | W              | Hennessey    | Ysgol Sant Baruc  |
| 6        | Mrs     | K              | Kemp         | Ysgol Gynradd Llancarfan  |
| 7        | Mr      | C              | Laity        | Ysgol Gynradd Tregatwg  |
| 8        | Mrs     | A              | Males        | Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gyfun Sant Cyres                         |
| 9        | Mrs     | A              | Malkin       | Ysgol Gynradd Gladstone   |
| 10       | Dr      | M              | Price        | Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant                             |
| 11       | Mr      | R              | Simpson      | Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru                  |
| 12       | Mr      | R              | Smith        | Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru                  |
| 13       | Mr      | D              | Treharne     | Ysgol Gynradd Llansannwyr yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgol Gwaun-y-nant |
| 14       | Mrs     | S              | Williams     | Ysgol Gynradd yr Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru                     |
| 15       | Cllr Mr | M              | Wilson       | Ysgol Gynradd Victoria  |
| PGR-Prim | Mrs     | J              | Lynch-Wilson | St. Athan Primary   |
| PGR-Sec  | Dr      | C              | Brown        | Llantwit Major Comprehensive  |

## Dyddiadau Tymhorau Ysgol 2018-20

Mae dyddiadau Tymhorau Ysgol 2018-20 bellach wedi'u cadarnhau hyd at Haf 2020. Dilynwch y ddolen i weld y manylion cyflawn

<http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/School-Term-Dates.aspx>



## CADWCH Y DYDD YN RHYDD

### Consortiwm Canolbarth y De Cynhadledd Haf i Lywodraethwyr 2018

Gyda'r Prif Siaradwr Kirsty Williams AC,  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg



Dydd Mercher  
6ed Mehefin  
2018

Village Hotel,  
Coryton,  
Caerdydd  
CF14 7EF

**Agenda ar  
gael yn fuan!**

Cadwch le yma: [www.cscgovconf.eventbrite.co.uk](http://www.cscgovconf.eventbrite.co.uk)  
Am fanylion pellach, cysylltwch â [CSCGovernor@cscjes.org.uk](mailto:CSCGovernor@cscjes.org.uk)